Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

shrn.org.uk

The School Health Research Network (SHRN)

# Arolwg Myfyrwyr ac Ysgolion y Rhwydwaith 2025:

# Gwybodaeth, Dyddiadau ac Amserlenni Allweddol.

Maria Boffey, Rheolwr Materion Allanol a Chyfnewid Gwybodaeth y Rhwydwaith

Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles
Welsh Network of Health and Well-being Promoting Schools

DECIPHer
Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement
A Public Health Research Centre of Excellence

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

CANCER RESEARCH UK


Llywodraeth Cymru Welsh Government

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

# Arolwg Myfyrwyr ac Ysgolion y Rhwydwaith 2025: Gwybodaeth, Dyddiadau ac Amserlenni Allweddol.

## Amserlen 2025: Dyddiadau Allweddol

- **Cofrestru:** 9 Mehefin – 18 Gorffennaf
- **Pecyn Arolwg Ysgolion y Rhwydwaith:** 5 Medi
- **Dolenni Ymarfer Ipsos:** 8 Medi
- **Anfon holl ddolenni'r arolwg a'r dangosfwrdd:** 11/12 Medi
- **Casglu Data:** 15 Medi – 19 Rhagfyr



# Amlinelliad o Gofrestru Ysgolion

## Cofrestru

- **Ffenestr Gofrestru:** Mae'n agor ar 9 Mehefin ac yn cau ar 18 Gorffennaf. Mae'n rhaid i ysgolion gofrestru o fewn y cyfnod hwn i gymryd rhan.
- **Gwahoddiad i'r Arolwg:** Bydd gwahoddiad i gofrestru yn cael ei anfon ar 9 Mehefin i gyswllt allweddol eich ysgol. Os oes gan eich ysgol Arweinydd Iechyd a Lles newydd, e-bostiwch **SHRN@cardiff.ac.uk.**

## Rhannu Data a Chydsyniad

- **Cytundeb Rhannu Data:** Mae ysgolion yn cytuno i rannu **data wedi'i gydgasglu, nad yw'n datgelu manylion adnabod** (e.e. % sy'n ysmygu'n wythnosol) gydag **Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi** mentrau gwella iechyd **yn yr ysgol,** fel rhaglen ymyrraeth **Byw Bywyd**.
- **Cydsynio i Gysylltu:** Mae angen cydsyniad i rannu **enw a chyfeiriad e-bost y cyswllt allweddol** gyda'ch **cydlynydd WNHPWS lleol** ac **Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd. *(Sylwch: Ni rennir gwybodaeth sy'n datgelu pwy yw dysgwyr at y diben hwn).*

## Gweithgareddau Cofrestru Allweddol i'w Cwblhau erbyn 18 Gorffennaf

- **Penodi Arweinydd yr Arolwg:** Nodwch yr aelod staff arweiniol a fydd yn cydlynu'r arolwg o fewn eich ysgol.
- **Dewis Dyddiad Dechrau'r Arolwg:** Dewiswch pryd fydd eich ysgol yn dechrau gweinyddu'r arolwg.
- **Trefnu Dyddiad I Ddosbarthu'r Llythyr i Rieni/Gofalwyr –** rhaid bod y dyddiad hwn **o leiaf bythefnos cyn** bod y dysgwyr yn ateb yr arolwg.

# Cymryd Rhan yn yr Adran am Ymddygiad Rhywiol

**Pwy sy'n cael eu holi:**

- **Gorfodol:** Blynyddoedd **11, 12, a 13**
- **Dewisol:** Blynyddoedd **9 a 10**

**Cyfraddau Cyfranogiad 2023:**

- Dewisodd **65%** o ysgolion bod **Blwyddyn 9** yn ateb
- Dewisodd **86%** o ysgolion bod **Blwyddyn 10** yn ateb

**Pam mae'n bwysig:**
Mae data o'r adran hon yn cefnogi cynllunio ymyriadau rhywiol ac yn cyfrannu at fonitro iechyd y boblogaeth yn lleol ac yn genedlaethol.

**Adran ar Ymddygiad Rhywiol – Pynciau Dan Sylw:**

- Cyfathrach rywiol.
- Defnyddio dulliau atal cenhedlu'r tro diwethaf iddynt gael rhyw.
- Oedran cael rhyw y tro cyntaf.

**Ffynhonnell:** Mae'r cwestiynau'n deillio o **Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oed Ysgol (HBSC)** Sefydliad Iechyd y Byd, a gydnabyddir yn rhyngwladol.

**Mae angen i'ch ysgol benderfynu a fydd yr adran ar ymddygiad rhywiol i'w gweld pan fydd yn cofrestru.**

# Cysylltedd Data: Newidiadau i Arolwg 2025

- **Nid oes angen cydsyniad lefel ysgol mwyach.** Gyda thros 90% o ysgolion uwchradd yn cydsynio i gysylltedd data yn 2023, mae'r Rhwydwaith bellach wedi cyrraedd trothwy derbynioldeb sy'n dderbyniol, felly mae'r opsiwn hwn ar gael i'r holl ddysgwyr sy'n cymryd rhan.
**(Sylwch: nid oes newidiadau i broses optio allan bresennol rheini/gofalwyr a disgyblion.)**

- Gwahoddir **pob dysgwr** i:
  - Ddarparu dynodwyr personol.
  - Cydsynio i gysylltedd data fel mater o drefn (e.e. trwy SAIL).

- **Cymorth**: Bydd Pecyn Casgliad Data'r Rhwydwaith i ysgolion, dysgwyr, a rhieni a gofalwyr yn darparu rhagor o wybodaeth. Anfonir hwn atoch ar **5 Medi.**

## Rhannu Data gyda Banc Data SAIL

- Mae **Banc Data SAIL**, sydd wedi'i leoli ym **Mhrifysgol Abertawe**, yn storfa ddiogel, gyda mynediad cyfyngedig iddi, ar gyfer data ar y boblogaeth, a ddefnyddir mewn ymchwil.
- Mae **Prifysgol Caerdydd** yn rhannu data o dan gytundeb ffurfiol gyda **Phrifysgol Abertawe** (sy'n derbyn y data), ac **Iechyd a Gofal Digidol Cymru** (sy'n prosesu'r data).
- Defnyddir y data **dim ond ar gyfer ymchwil** sydd o fudd i'r cyhoedd yn y DU, ac mae Prifysgol Caerdydd yn cadarnhau bod ganddi **ganiatâd cyfreithiol** i rannu'r data hwn o dan **GDPR y DU**.
- Defnyddir **proses rhannu ffeiliau** i amddiffyn preifatrwydd: cedwir data personol ac ymatebion i'r arolwg yn **gwbl ar wahân** ac **ni chânt fyth eu storio gyda'i gilydd** yn yr un ffeil.

## Crynhoad Terfynol: Beth mae angen i fy ysgol ei wneud nesaf?

- **Cadwch lygad allan am ddolen eich ysgol ar gyfer cofrestru, y bydd y Rhwydwaith yn ei hanfon atoch.**
- **Cwblhewch y ddolen gofrestru cyn gynted â phosibl** *(erbyn 18 Gorffennaf fan bellaf)*
- **Os oes gan eich ysgol Arweinydd Iechyd a Lles newydd, e-bostiwch SHRN@cardiff.ac.uk.**

# Eisiau Dysgu Rhagor?

**I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch Dîm y Rhwydwaith:**

SHRN@cardiff.ac.uk

neu

**Ymwelwch â ni ar-lein:**

www.shrn.org.uk

**Rydym yn croesawu eich bod yn cymryd rhan ac edrychwn ymlaen at eich cefnogi trwy gydol y broses casglu data.**

**Diolch.**